Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Ysgoloriaethau Israddedig 2012 – 2013

Amodau a Thelerau

Cyflwyniad

1. Y mae'r amodau a'r telerau sydd wedi eu nodi yn y ddogfen hon yn berthnasol i weithrediad y Cynllun yn 2012/13. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i amrywio'r telerau ar amodau yn y dyfodol, ac yn cadw'r hawl i wneud penderfyniadau polisi ychwanegol yn achos unrhyw fater sydd y tu hwnt i'r hyn sydd wedi ei gynnwys yn y ddogfen hon. Mewn achosion o'r fath, y mae'r Coleg yn cadw'r hawl i ymgorffori penderfyniadau polisi o'r fath i reolau'r Cynllun yn y dyfodol.

2. Y mae swm yr ysgoloriaethau unigol wedi eu nodi yn Adrannau A a B isod. Y mae'r ffigyrau hyn yn derfynol ar gyfer 2012/13, ond y mae'r Coleg yn cadw'r hawl i amrywio gwerth y dyfarniadau.

3. Yn ogystal ag amodau a thelerau'r Coleg ar gyfer y Cynllun, yn achos y Prif Ysgoloriaethau, y mae'r prifysgolion perthnasol yn cadw'r hawl i nodi amodau a thelerau ychwanegol, yn unol â'r hyn a nodir yn Adran A isod.

Rheoliadau Cyffredinol

4. Mae'r ysgoloriaethau hyn yn agored i ferched a dynion fydd wedi cyrraedd 17 mlwydd oed yn y flwyddyn y bwriadant ddechrau cwrs gradd yn y brifysgol.

5. Mae pob unigolyn sy'n gwneud cais i astudio mewn Prifysgol yng Nghymru, yn y cyrsiau a nodir, i gychwyn astudio ym Medi/Hydref 2012 yn gymwys i wneud cais am un o Ysgoloriaethau'r Coleg.

6. Y mae pob dyfarniad yn amodol ar dderbyn cadarnhad y bydd y myfyriwr yn dilyn cwrs gradd llawn amser neu ran amser. Ni fydd

myfyriwr a fydd mewn swydd llawn amser neu ar secondiad o swydd barhaol yn gymwys i dderbyn ysgoloriaeth.

7. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i atal dyfarniadau os na cheir ceisiadau teilwng. Yn achos unrhyw ddyfarniadau a fydd wedi eu hatal, mae'r Coleg yn cadw'r hawl i ystyried ffyrdd eraill o ddyfarnu'r ysgoloriaethau.

8. Ni fydd modd i unrhyw unigolyn ddal mwy nag un ysgoloriaeth gan y Coleg ar yr un pryd.

9. Nid yw'r Cynllun yn gwahardd ymgeiswyr rhag derbyn nawdd, gwobr neu ysgoloriaeth o ffynhonnell arall. Mater i brifysgolion unigol fydd penderfynu a oes modd i fyfyrwyr dderbyn ysgoloriaeth gan y Coleg yn ogystal ag ysgoloriaeth gan y brifysgol. Ym mhob achos, dylai'r myfyriwr ymgynghori â'r brifysgol berthnasol.

10. Dyfernir yr ysgoloriaeth i astudio cwrs gradd penodol mewn Prifysgol benodol. Ni fydd modd trosglwyddo'r ysgoloriaeth felly i astudio mewn Prifysgol arall.

11. Hyd pob ysgoloriaeth yw tair blynedd. Yn achos myfyrwyr a fydd yn dilyn cyrsiau gradd pedair blynedd, bydd yr ysgoloriaeth ar gael am dair o'r blynyddoedd hynny.

12. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i derfynu neu ddiddymu unrhyw ysgoloriaeth, yn amodol ar roi o leiaf chwe mis o rybudd i'r deiliad.

13. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i osod amod ei bod yn ofynnol i bob myfyriwr sydd yn derbyn ysgoloriaeth drwy'r Coleg ddilyn cymhwyster neu dystysgrif mewn sgiliau iaith Gymraeg a gaiff ei gyflwyno gan y Coleg. Bydd yr amod hwn yn cael ei ddiffinio'n eglur wrth gadarnhau'r dyfarniad.

14. Y mae'r broses ymgeisio wedi ei hamlinellu'n llawn yn Adrannau A a B isod. Y mae'r dyddiadau cau a nodir yn derfynol, ac ni fydd modd derbyn ceisiadau a fydd wedi eu cyflwyno'n hwyr.

15. **Ym mhob achos, y mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr gwblhau eu ffurflen gais yn Gymraeg**. Ni fydd ceisiadau a fydd wedi eu cyflwyno mewn unrhyw iaith ac eithrio'r Gymraeg yn gymwys.

16. Mae sawl cwrs yn gymwys ar gyfer y Prif Ysgoloriaethau ac Ysgoloriaethau Cymhelliant. Os ydych yn ymgeisio am gyrsiau sydd yn gymwys i'r ddau gategori o ysgoloriaeth, dylech ymgeisio am un o Brif Ysgoloriaethau'r Coleg. Fe fydd unrhyw geisiadau cymwys aflwyddiannus ar gyfer y Prif Ysgoloriaethau yn cael eu hystyried wrth ddyfarnu'r Ysgoloriaethau Cymhelliant. Wedi i chi lenwi ffurflen gais am Brif Ysgoloriaeth, ni fydd angen i chi lenwi ffurflen ychwanegol ar gyfer yr Ysgoloriaethau Cymhelliant.

17. Mae'r amodau a'r telerau a nodir yn y ddogfen hon yn derfynol. Y mae'n ofynnol i bob ymgeisydd nodi eu bod yn derbyn yr amodau hyn, ac y bydd y penderfyniadau dyfarnu yn derfynol.

Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

18. Prif nod Cynllun Ysgoloriaethau Israddedig y Coleg yw cynnal a chynyddu niferoedd y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifysgol. Y mae pob dyfarniad yn amodol ar dderbyn cadarnhad fod y deiliad yn astudio'r nifer angenrheidiol o gredydau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â'r hyn a nodir yn Adrannau A a B. Dyma brif amod yr ysgoloriaethau.

19. Os nad yw myfyriwr, am ba bynnag reswm, yn dilyn y nifer angenrheidiol o gredydau ym mhob blwyddyn o'u hastudiaeth, bydd y Coleg yn atal y dyfarniad, ac yn cadw'r hawl i derfynu'r ysgoloriaeth. Gan mai dyma brif amod y dyfarniadau, mewn achosion o'r fath, ni fydd yn ofynnol i'r Coleg roddi rhybudd i'r deiliad y bydd y cyllid yn cael ei atal neu ei derfynu.

20. Cyfrifoldeb y brifysgol sy'n cynnig y cwrs gradd yw sicrhau bod y nifer angenrheidiol o gredydau ar gael i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cyflawni gofynion y Cynllun. Ni fydd y Coleg yn derbyn

unrhyw gyfrifoldeb os yw prifysgol, am ba bynnag reswm, yn methu cynnig y nifer gofynnol o gredydau i fyfyriwr yn ystod unrhyw flwyddyn astudio. Mewn unrhyw achos o'r fath, y mae'n ofynnol i'r brifysgol gysylltu â'r Coleg ar unwaith i nodi nad ydynt mewn sefyllfa i gyflawni gofynion y Cynllun. Cyfrifoldeb y brifysgol fydd hysbysu'r myfyriwr o'r sefyllfa.

Y Cynllun Ysgoloriaethau Israddedig

20. Mae Cynllun Ysgoloriaethau Israddedig y Coleg yn cynnwys dau fath o ysgoloriaeth, sef 'Prif Ysgoloriaethau'r Coleg' ac 'Ysgoloriaethau Cymhelliant'.

21. Y mae amodau 6-19 uchod yn berthnasol i'r holl ysgoloriaethau. Yn ychwanegol i'r amodau hyn, y mae manylion a thelerau'r Prif Ysgoloriaethau a'r Ysgoloriaethau Cymhelliant wedi eu hamlinellu'n llawn yn Adrannau A a B isod.

Trefniadau Ymarferol y Cynllun Ysgoloriaethau Israddedig

22. Bydd yr ysgoloriaethau israddedig yn cael eu cynnig yn uniongyrchol gan y Coleg a bydd yr arian yn cael ei dalu'n syth i gyfrif banc y myfyrwyr. Bydd y Coleg yn gofyn i bob ymgeisydd a fydd yn cael cynnig ysgoloriaeth i ddarparu manylion banc er mwyn prosesu'r taliadau yn amodol ar gyflawni'r amodau a nodir yn 6-19 ac yn Adran A isod ar gyfer Prif Ysgoloriaethau'r Coleg, ac yng nghymalau 6-19 uchod ac yn Adran B isod ar gyfer Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg.

23. Ar ddechrau blwyddyn academaidd 2012/13 gwahoddir myfyrwyr sydd wedi derbyn Ysgoloriaethau i gyfarfod yn eu prifysgol lle byddant yn derbyn manylion llawn am y wybodaeth y bydd yn ofynnol iddynt ei gyflwyno i'r Coleg er mwyn cadarnhau'n swyddogol eu bod yn cyflawni gofynion y Cynllun. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys gwybodaeth lawn am y modiwlau y bydd y deiliad yn ei astudio yn y brifysgol. Yn

amodol ar dderbyn y wybodaeth hon, a sicrhau fod y deiliad yn cyflawni gofynion y Cynllun, bydd y Coleg yn cadarnhau'n swyddogol fod y deiliad yn gymwys i dderbyn yr ysgoloriaeth.

24. Bydd taliadau'r ysgoloriaeth yn y flwyddyn gyntaf (2012/13) yn cael eu cwblhau ym mis Mawrth 2013 yn amodol ar dderbyn cadarnhad gan y brifysgol berthnasol fod y deiliad yn parhau i astudio ar gwrs cymwys ac yn dilyn y nifer angenrheidiol o gredydau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Adran A

Prif Ysgoloriaethau'r Coleg

Cyflwyniad

25. Mae Prif Ysgoloriaethau'r Coleg ar gyfer cyrsiau gradd lle mae o leiaf 240 credyd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Y mae'r rhestr o gyrsiau sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun hwn wedi ei gytuno'n derfynol rhwng y Coleg a'r prifysgolion, ac y mae'r rhestr ar gael yn llawn ar wefan Mantais (www.mantais.ac.uk).

26. Bydd yn ofynnol i bob myfyriwr sy'n derbyn un o Brif Ysgoloriaethau'r Coleg astudio o leiaf 240 credyd o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, a bydd yn ofynnol i astudio isafswm o 80 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn o'r cwrs gradd.

27. Bydd y Coleg yn dyfarnu 50 Prif Ysgoloriaeth a fydd yn cychwyn ar eu hastudiaethau ym Medi 2012, yn amodol ar dderbyn nifer digonol o geisiadau cymwys.

28. Gwerth pob Prif Ysgoloriaeth yw £1000 y flwyddyn am dair blynedd (sy'n cyfateb i gyfanswm o £3000).

29. Fel arfer, ni fydd mwy na phedair Prif Ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu mewn unrhyw bwnc neu ddisgyblaeth unigol mewn unrhyw brifysgol,

Proses Ymgeisio

30. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am Brif Ysgoloriaethau'r Coleg yw **15 Ionawr 2012**. Gellir cyflwyno ceisiadau electronig neu geisiadau ysgrifenedig. **Rhaid cyflwyno'r ceisiadau hyn i'r Coleg, yn unol â'r cyfarwyddiadau ar y ffurflen gais. Ni dderbynnir ceisiadau a gyflwynir yn hwyr.**

Proses Ddyfarnu

31. Y mae nifer penodol o Brif Ysgoloriaethau'r Coleg wedi eu dyrannu i'r prifysgolion perthnasol.

32. Yn achos y Prif Ysgoloriaethau, yn dilyn y dyddiad cau bydd pob cais a gyflwynir i'r Coleg yn cael ei gyflwyno i'r brifysgol berthnasol. Os bydd ymgeisydd yn nodi mwy nag un prifysgol ar eu ffurflen gais, bydd y cais yn cael ei ddanfon at bob prifysgol a nodwyd, a hynny ar yr un dyddiad.

33. Y prifysgolion unigol fydd yn gyfrifol am y broses o ddyfarnu'r ysgoloriaethau, yn unol â'r hyn a nodir yng nghymalau 35 i 41 isod. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y broses ddyfarnu yn y prifysgolion unigol i'r sefydliad hwnnw yn y lle cyntaf.

34. Yn unol â'r hyn a nodir yn 31 uchod, y mae dosbarthiad yr ysgoloriaethau yn y prifysgolion wedi ei amlinellu yng nghymalau 35 i 41 isod. Y mae'r prosesau dyfarnu yn y prifysgolion unigol hefyd wedi eu hamlinellu yn y cymalau hyn. Noder y bydd pob dyfarniad yn amodol ar gyflawni unrhyw amodau mynediad a bennir gan y brifysgol berthnasol.

35. Prifysgol Bangor: Dyrannwyd 12 o Brif Ysgoloriaethau'r Coleg i Brifysgol Bangor. Dyfernir yr ysgoloriaethau hyn drwy drefn arholiadau mewnol Prifysgol Bangor, a bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar gais y Brifysgol. Cynhelir arholiadau ysgoloriaethau'r Brifysgol yn Ionawr 2012.

36. Prifysgol Aberystwyth: Dyrannwyd 11 o Brif Ysgoloriaethau'r Coleg i Brifysgol Aberystwyth. Dyfernir yr ysgoloriaethau hyn drwy drefn arholiadau mewnol Prifysgol Aberystwyth, ac er mwyn gallu sefyll yr arholiad bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno ffurflen gais ar wahân, yn uniongyrchol i'r Brifysgol. Gellir lawrlwytho'r ffurflen gais oddi ar wefan y Brifysgol, drwy ddilyn y ddolen a ganlyn <http://www.aber.ac.uk/en/media/ESAppFrmW.pdf>. Ceir manylion am ddyddiadau arholiadau ysgoloriaethau Prifysgol Aberystwyth ar wefan y Brifysgol.

37. Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant: Dyrannwyd 11 o Brif Ysgoloriaethau'r Coleg i Brifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant. Dyfernir yr ysgoloriaethau hyn drwy gyfuniad o arholiad a chyfweliad neu bortffolio a chyfweliad. Bydd y Brifysgol yn darparu gwybodaeth ychwanegol i ymgeiswyr yn dilyn derbyn eu ceisiadau.

38. Prifysgol Morgannwg: Dyrannwyd 4 Prif Ysgoloriaeth i Brifysgol Morgannwg. Dyfernir yr ysgoloriaethau hyn drwy gyfuniad o arholiad a chyfweliad neu bortffolio a chyfweliad. Bydd y Brifysgol yn darparu gwybodaeth ychwanegol i ymgeiswyr yn dilyn derbyn eu ceisiadau.

39. Prifysgol Abertawe: Dyrannwyd 4 Prif Ysgoloriaeth i Brifysgol Abertawe. Dyfernir yr ysgoloriaethau hyn drwy drefn arholiadau mewnol Prifysgol Abertawe. Bydd y Brifysgol yn darparu gwybodaeth ychwanegol i ymgeiswyr yn dilyn derbyn eu ceisiadau.

40. Prifysgol Caerdydd: Dyrannwyd 4 Prif Ysgoloriaeth i Brifysgol Caerdydd. Dyfernir yr ysgoloriaethau hyn drwy drefn arholiadau mewnol Prifysgol Caerdydd, a bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar gais y Brifysgol. Cynhelir arholiadau Prifysgol Caerdydd ym Mawrth 2012.

41. UWIC: Dyrannwyd 4 Prif Ysgoloriaeth i UWIC. Dyfernir yr ysgoloriaethau hyn drwy broses a gaiff ei chadarnhau ym mis Medi 2011.

42. Yn dilyn cwblhau prosesau dyfarnu'r prifysgolion, bydd y prifysgolion yn darparu rhestr o'r ymgeiswyr llwyddiannus i'r Coleg. Gan fod amserlen y prosesau dyfarnu yn amrywio o'r naill brifysgol i'r llall, mae'n bosibl na fydd modd cadarnhau'r rhestr derfynol o ddyfarniadau llwyddiannus tan 30 Ebrill 2012.

43. Yn dilyn derbyn cadarnhad o'r dyfarniadau llwyddiannus, bydd y Coleg yn cyhoeddi rhestr lawn o'r dyfarniadau yn y wasg ac ar wefan y Coleg.

Adran B

Ysgoloriaethau Cymhelliant

Cyflwyniad

44. Mae Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg ar gyfer cyrsiau gradd penodol lle mae'n bosibl astudio o leiaf 120 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Y mae'r rhestr o gyrsiau sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun hwn wedi ei gytuno'n derfynol rhwng y Coleg a'r prifysgolion, ac y mae'r rhestr ar gael yn llawn ar wefan Mantais (www.mantais.ac.uk).

45. Bydd yn ofynnol i bob myfyriwr sy'n derbyn un o'r Ysgoloriaethau Cymhelliant i astudio o leiaf 120 credyd o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, a bydd yn ofynnol i astudio isafswm o 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn o'r cwrs gradd.

46. Bydd y Coleg yn dyfarnu o leiaf 100 o Ysgoloriaethau Cymhelliant, yn amodol ar dderbyn nifer digonol o geisiadau cymwys. Bydd pob ymgeisydd cymwys am Ysgoloriaeth Cymhelliant yn derbyn ysgoloriaeth gan y Coleg yn amodol ar gyflawni gofynion y ffurflen gais.

47. Bydd pob Ysgoloriaeth Cymhelliant unigol werth hyd at £500 y flwyddyn am dair blynedd (sy'n cyfateb i hyd at £1500 dros dair blynedd).

48. Yn ychwanegol at yr amodau sydd wedi eu nodi yn 6-16, a 44-47 uchod, y mae'r Coleg yn cadw'r hawl i osod disgwyliad ar ddeiliaid yr Ysgoloriaethau Cymhelliant i ymgymryd â chyfnod o brofiad gwaith sy'n berthnasol i'w cwrs gradd, fel amod o'r dyfarniad. Bydd y Coleg yn hysbysu ymgeiswyr llwyddiannus o'r angen i gyflawni amod o'r fath, wrth gynnig yr ysgoloriaeth.

Proses Ymgeisio

49. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg yw **4 Mai 2012.** Gellir cyflwyno ceisiadau electronig neu geisiadau ysgrifenedig. **Rhaid cyflwyno'r ceisiadau hyn i'r Coleg yn unol â'r cyfarwyddiadau ar y ffurflen gais. Ni dderbynnir ceisiadau hwyr.**

Proses Ddyfarnu

50. Yn unol â'r hyn a nodir yn 46 uchod, bydd pob ymgeisydd cymwys am Ysgoloriaeth Cymhelliant yn derbyn ysgoloriaeth gan y Coleg yn amodol ar gyflawni gofynion y ffurflen gais.

51. Bydd y Coleg yn cadarnhau'r dyfarniadau llwyddiannus erbyn 31 Mai, 2012 drwy gysylltu â'r ymgeiswyr llwyddiannus.

52. Yn dilyn cadarnhau'r rhestr o'r dyfarniadau llwyddiannus, bydd y Coleg yn cyhoeddi rhestr lawn o'r dyfarniadau yn y wasg ac ar wefan y Coleg.

Mae'r amodau a'r telerau sydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen hon yn derfynol, ac i'w gweithredu'n llawn ar gyfer pob dyfarniad o'r Cynllun Ysgoloriaethau Israddedig yn 2012/13.